



**YSGOL
LLANFYLLIN**

14eg Mehefin 2024

Cyf: Cynnig i newid hyd y diwrnod ysgol

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch a gymerodd ran yn y broses ymgynghori ynghylch y cynnig i newid amser gorffen y diwrnod ysgol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Uwchradd o 3:25pm i 3:10pm o'r 1^{af} o Fedi 2024. Rwy'n ysgrifennu yn awr i'ch hysbysu am ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

Yn ystod y broses ymgynghori, cynhaliwyd trafodaethau a chyfarfodydd gyda'r grwpiau canlynol::

- Rhieni a gofalwyr disgyblion Ysgol Llanfyllin
- Aelodau o gyngor myfyrwyr Ysgol Llanfyllin
- Holl staff Ysgol Llanfyllin
- Awdurdod Addysg Lleol Powys
- Aelodau o gorff llywodraethu Ysgol Llanfyllin
- Pob darparwr cludiant ysgol

Mae'r holl sylwadau a chwestiynau a drafodwyd yn ystod y rhyngweithiadau hyn wedi'u hystyried gan Gorff Llywodraethu ac Uwch Dîm Arwain yr ysgol. O ganlyniad, mae penderfyniad wedi'i wneud y dylid gweithredu'r cynnig heb unrhyw addasiad. Daw'r newid hwn i rym ar y **1^{af} o Fedi 2024**.

Byddwn yn awr yn gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu ar ddysgwyr a'u teuluoedd o ganlyniad i'r newid hwn.

Rwy'n gwerthfawrogi y gallai'r newid hwn effeithio arnoch chi o ran gofal plant neu drefniadau gweithio, ac efallai y bydd gennych gwestiynau yn ymwneud ag addysg eich plentyn. Mae croeso i chi gysylltu â mi drwy office@llanfyllin.powys.sch.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Yr eiddoch yn gywir,

Dewi Owen

Pennaeth Ysgol Llanfyllin Headteacher